Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle'r Ynn
# Cilgant Llansawel
# Llansawel
# Castell Nedd
# SA11 2UN

## Dyddiad yr arolygiad:  Mai 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/07/2017**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol ym mhentref Llansawel ac mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot. Mae 246 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 50 o ddisgyblion oed meithrin. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu rhwng 9 dosbarth, gan gynnwys un oedran cymysg. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Ychydig o ddisgyblion ddaw o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae tua 20% yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n agos i'r cyfartaledd cenedlaethol (19%). Mae'r ysgol wedi adnabod 20% o ddisgyblion yn rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn llai na'r canran cenedlaethol (25%). Ychydig iawn o ddisgyblion a ddaw o gefndir ethnig lleiafrifol neu gymysg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o dan ofal yr awdurdod lleol.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Ionawr 2007 a chafodd yr ysgol ei harolygiad diwethaf ym mis Tachwedd 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle'r Ynn yn 2016-2017 yw £3,133. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghastell Nedd Port Talbot yw £6,224 a'r lleiafswm yw £2,851. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle'r Ynn yn safle 48 o'r 57 ysgol gynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn datblygu medrau llafar yn llwyddiannus
- medrau darllen rhan fwyaf disgyblion yn datblygu'n effeithiol
- llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol mewn ystod addas o ffurfiau gwahanol yn y Cyfnod Sylfaen
- medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu'n raddol
- llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod addas o strategaethau i ddatrys problemau rhifedd yn briodol
- safonau lles bron pob disgybl yn gyson dda
- ymddygiad bron pob disgybl mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn dda iawn
- perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng staff a'r disgyblion

Fodd bynnag:

- nid oes gan y lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 afael ddigon gadarn ar batrymau sillafu yn y Gymraeg na'r Saesneg
- yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn is na'u cyfoedion dros y pedair blynedd ddiwethaf
- anghyson yw strwythur y cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws yr ysgol
- nid yw athrawon bob tro'n manteisio ar gyfleoedd addas i ddatblygu medrau disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol nac yn sicrhau her ddigonol i ddisgyblion mwyaf abl
- nid yw sylwadau marcio athrawon bob tro'n ddigon effeithiol er mwyn i ddisgyblion wybod beth maent yn ei wneud yn dda a sut i wella'u gwaith

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ofal, cymorth, lles a boddhad y disgyblion a'r staff
- cydweithio agos sy'n bodoli rhwng yr holl staff yn cyfrannu'n llwyddiannus at wireddu weledigaeth yr ysgol
- llywodraethwyr yn cefnogi'r pennaeth a'r staff yn lled effeithiol ac, ar y cyfan, yn adnabod anghenion yr ysgol
- arweinwyr yn cywain barn staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn gyson

- cynllun gwella'r ysgol yn ddogfen ddefnyddiol ac yn cynnwys targedau meintiol addas, ynghyd â chostau a chamau gweithredu priodol
- partneriaeth werthfawr yn bodoli rhwng yr ysgol â'r rhieni
- y pennaeth, y llywodraethwyr a swyddog cyllid yr awdurdod lleol yn rheoli cyllideb yr ysgol yn dda
- partneriaeth dda rhwng yr ysgol â phrifysgolion a cholegau lleol sy'n cyfrannu'n effeithiol at adeiladu cynhwysedd o fewn yr ysgol

Fodd bynnag:

- nid yw rôl strategol arweinwyr yn sicrhau bod cydbwysedd priodol yn bodoli rhwng yr elfennau o ofal, cymorth a lles ar yr un llaw a'r ddarpariaeth gwricwlaidd ar y llall
- nid yw'r amserlen hunanarfarnu'n nodi cyfleoedd i arfarnu nifer o elfennau allweddol ar waith yr ysgol yn ddigon manwl
- nid oes gan arweinwyr wybodaeth ddigon trylwyr am effeithiolrwydd y ddarpariaeth na'i heffaith ar ddisgyblion mewn meysydd penodol
- at ei gilydd, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddisgrifiadol ac nid yw'n canolbwyntio ddigon ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau
- nid yw amcanion rheoli perfformiad y staff bob amser yn ddigon miniog i fod yn gymorth i arweinwyr eu gwerthuso

## Argymhellion

A1 Codi safonau ysgrifennu yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2

A2 Darparu cyfleoedd cydlynus i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso eu medrau rhifedd a llythrennedd ar y lefel briodol

A3 Sicrhau cysondeb yn yr addysgu ac asesu ar draws yr ysgol er mwyn meithrin medrau dysgu annibynnol a herio disgyblion mwyaf abl yn effeithiol

A4 Cynllunio'n strategol er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng y ddarpariaeth ar gyfer lles a'r cwricwlwm

A5 Mireinio gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn sicrhau eu bod yn fwy arfarnol ac effeithiol

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau sylfaenol tua hanner y disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Er hynny, mae llawer yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn cyfrannu'n briodol i drafodaethau dosbarth. Mae medrau meddwl llawer o ddisgyblion yn datblygu'n addas yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau llafar yn hyderus wrth gyfathrebu â'u cyfoedion ac oedolion. Yn fuan ar ôl cychwyn yn y Cyfnod Sylfaen, maent yn datblygu ystod o eirfa ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau a chwestiynau cyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn cynnal sgwrs ac yn mynegi eu syniadau'n glir wrth ymgymryd â gwahanol weithgareddau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn eglur ac yn ymateb yn briodol mewn trafodaethau am yr hyn y maent yn ei wneud yn synhwyrol. Maent yn defnyddio ystod o eirfa'n llwyddiannus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n effeithiol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod seiniau llythrennau'n gadarn ac yn dechrau adeiladu geiriau'n gynyddol hyderus. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau addas i ddarllen yn gymharol rugl a chywir gan ddangos mwynhad a phleser wrth ddarllen. Mae llawer ohonynt yn rhoi sylw da i'r atalnodi ac yn amrywio goslef llais a chyflymder yn fedrus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn llwyddiannus, ac yn dangos dealltwriaeth briodol o'r testun.

Ar draws y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol mewn ystod addas o ffurfiau gwahanol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu dilyniant o frawddegau gyda chywirdeb, gan ddefnyddio atalnodi a sillafu ar lefel sy'n addas i'w hoed a'u gallu. Mae disgyblion mwyaf abl yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o ysgrifennu at wahanol bwrpas ac yn dechrau amrywio cychwyn brawddegau a defnyddio treigliadau yn addas, er enghraifft wrth ysgrifennu stori'r 'Tri Mochyn Bach'. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n briodol at wahanol bwrpas a chynulleidfaoedd. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r mwyafrif yn atalnodi a pharagraffu i strwythuro a threfnu darnau ysgrifenedig. Fodd bynnag, nid oes gan y lleiafrif afael ddigon cadarn ar batrymau sillafu yn y Gymraeg na'r Saesneg, nac yn defnyddio ystod gyfoethog o eirfa'n gyson yn eu gwaith. Yn ogystal, nid yw'r lleiafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddigon estynedig.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn datrys problemau rhif syml yn addas, defnyddio arian mewn sefyllfa pob dydd a defnyddio unedau mesur yn gywir. Maent yn adnabod gwahanol siapiau a chasglu a chofnodi data mewn ffurf graff bar yn llwyddiannus, er enghraifft i gyfleu

sawl person sy'n byw yn eu cartref. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio ystod addas o strategaethau i ddatrys problemau yn briodol. Maent yn dadansoddi data, datrys problemau ffracsiynau a chanrannau ac yn mesur perimedr ac arwynebedd yn briodol. At ei gilydd, mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn lled hyderus. Enghraifft dda o hyn yw disgyblion ieuengaf cyfnod allweddol 2 yn datrys problemau rhifedd mewn cyd-destun diddorol yn seiliedig ar eu hymweliad â pharc lleol. Mae hwn wedi caniatáu iddynt gymhwyso'u dealltwriaeth o waith rhif yn hyderus mewn sefyllfa sy'n real iddynt. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau rhifedd yn gyson mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm ym mhob dosbarth ar draws yr ysgol.

Mae medrau TGCh llawer o ddisgyblion yn datblygu'n raddol. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod addas o feddalwedd a chyfarpar yn briodol mewn gwahanol feysydd dysgu, er enghraifft wrth ysgrifennu storïau a gwneud lluniau, creu graffiau a rheoli tegan rhaglenadwy. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn defnyddio rhaglenni addas i gyfathrebu gwybodaeth, er enghraifft i greu cyflwyniad ar effaith ysmygu ar yr ysgyfaint a ffilm fer mewn gwyddoniaeth. Maent yn creu graffiau a threfnu data gan ddefnyddio taenlenni a bas data yn briodol. Fodd bynnag, nid yw medrau llawer o ddisgyblion wedi datblygu'n ddigon effeithiol i'w galluogi i ddefnyddio'r meddalwedd hyn i gefnogi'u gwaith ar draws y cwricwlwm.

Yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deilliannau disgwyliedig mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi bod yn yr 50% is a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf. Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefelau disgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol yn gyffredinol yn yr 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg dros yr un cyfnod.

Ar y deilliant uwch, mae perfformiad mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn Cyfnod Sylfaen a'r pynciau craidd yng ngyfnod allweddol 2 wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae perfformiad y disgyblion ar y deilliant a'r lefel uwch wedi gostwng yn raddol dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd eu targedau. Yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn is na'u cyfoedion dros y pedair blynedd ddiwethaf. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad y merched yn gyson uwch na'r bechgyn ar gyfer y deilliannau disgwyliedig ac uwch mewn iaith a chyfathrebu dros y pedair blynedd ddiwethaf. Yng nghyfnod allweddol 2, mae merched yn gyffredinol yn cyflawni'n uwch na'r bechgyn ar y lefel ddisgwyliedig ac uwch yn y Gymraeg dros yr un cyfnod.

**Lles: Da**

At ei gilydd, mae safonau lles bron pob disgybl yn gyson dda o fewn cymuned ofalgar a theuluol yr ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt bryder. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwerthfawrogi bod oedolion yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn eu cymryd o ddifrif. Mae hyn yn elfen gref o natur gynhwysol yr ysgol.

Mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth dda o faterion iechyd a byw'n iach trwy weithgareddau fel brwsio dannedd, cadw'n heini, yfed digon o ddŵr a chynnal siop ffrwythau yn ddyddiol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mwynhau gweithgareddau corfforol mewn gwersi ffurfiol a thrwy fynychu amrywiaeth effeithiol o weithgareddau a chystadlaethau sy'n cael eu trefnu gan yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw'r 'Wythnos Iechyd a Ffitrwydd' a gynhelir yn flynyddol lle mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo eu hiechyd, ffitrwydd a lles.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos parch a gofal at ei gilydd ac oedolion. Mae safon ymddygiad bron pob disgybl mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn dda iawn. Maent yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau estynedig wrth weithio ar dasgau ac yn falch o'r gwaith maent wedi ei gyflawni.

Mae lefelau presenoldeb yn dda ac yn gosod yr ysgol yn gyson yn yr 50% uchaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg dros dair o'r pedair blynedd diwethaf. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae aelodau brwd y cyngor ysgol yn gweithredu'n lled effeithiol er mwyn datblygu syniadau a chyfrannu at benderfyniadau'r ysgol, er enghraifft wrth ystyried pa offer buarth i'w brynnu er mwyn hyrwyddo lles a ffitrwydd disgyblion. Mae'r disgyblion yn codi arian at elusennau o fewn eu cymuned ac yn fyd-eang. Maent yn diddanu'r henoed mewn cartrefi preswyl yn rheolaidd ac yn ymweld ag ysbyty lleol i ddiddanu'r cleifion sy'n cyfrannu'n dda at sicrhau bod disgyblion yn datblygu'n aelodau cyflawn a chyfrifol o'u cymuned. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o sefyllfaoedd pobl llai ffodus ac anghenus. Er enghraifft, maent yn ymwybodol iawn o fywyd disgyblion yn Uganda trwy'r cyswllt buddiol sydd rhwng yr ysgol ac elusen yn y wlad honno.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau buddiol sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn addas. Maent yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, addysg grefyddol a mwyafrif o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn briodol. At ei gilydd, mae'r athrawon yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol a'i fod yn berthnasol i fywyd y disgyblion.

Mae'r ysgol yn ymateb yn addas i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn ei chynlluniau. Fodd bynnag, anghyson yw strwythur y cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw'r ysgol bob tro'n darparu cyfleoedd cydlynus i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso eu medrau ar y lefel briodol mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion yn datblygu'n briodol. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau hyn wedi'u sefydlu'n ddigon cadarn er mwyn i ddisgyblion adeiladu'n strywthuredig ar eu medrau ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn atgyfnerthu profiadau dysgu disgyblion yn fuddiol drwy drefnu ymweliadau addysgol a phrofiadau preswyl. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r elfen Gymreig yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus. Darperir

amrywiaeth dda o gyfleoedd ar gyfer datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddathliadau, hanes a diwylliant Cymru yn ogystal â'r ardal leol. Mae'r ysgol yn hybu Cymreictod yn effeithiol trwy ystod o weithgareddau buddiol o'i siarter iaith, er enghraifft trwy gyflwyno rhaglenni gorsaf radio'r ysgol a thrwy gynnal pleidlais am eu hoff fandiau Cymreig.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn datblygu'n briodol ar draws y cwricwlwm. Hyrwyddir ymwybyddiaeth y disgyblion ymhellach trwy astudio gwledydd Ewrop yn ystod pencampwriaeth rygbi'r chwe gwlad a thrwy gysylltiadau cyson gydag elusen yn Uganda. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o rieni ac ymwelwyr o dramor i rannu profiadau o wahanol ddiwylliannau gyda'r disgyblion, er enghraifft gwraig o Batagonia yn siarad â'r disgyblion am ei hardal a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg i'r trigolion yno. Mae gweithgareddau'r cyngor ysgol yn cyfrannu at ddealltwriaeth disgyblion o gynaliadwyedd yn addas.

**Addysgu: Digonol**

Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion. Mae cynorthwywyr yn cefnogi'r dysgu'n effeithiol yn y mwyafrif o ddosbarthiadau. Mae staff yn rheoli ymddygiad yn llwyddiannus ac mae llawer yn defnyddio iaith safonol yn gadarn. Mae bron pob un o'r athrawon yn darparu tasgau diddorol sy'n ysgogi diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio dulliau addysgu priodol ar draws yr ysgol sy'n diwallu anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn addas. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn herio disgyblion mwy abl yn ddigon effeithiol nac yn manteisio ar gyfleoedd addas i ddatblygu medrau disgyblion mewn gwersi a'u hannog i ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae athrawon yn defnyddio ystod gyfyng a strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol, sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar allu disgyblion i wella'u gwaith. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion mewn llawer o wersi ac yn holi'n bwrpasol i atgyfnerthu'r dysgu ac i ddatblygu medrau meddwl disgyblion yn briodol. Mae disgyblion yn dechrau defnyddio'r côd marcio'n briodol i gywiro'u gwaith, er nid yw'r arfer hon yn gadarn ar draws yr ysgol. Er bod athrawon yn cynnig sylwadau ysgrifenedig i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith, nid ydynt bob tro'n gysylltiedig â'r meini prawf llwyddiant nac yn ddigon penodol i sicrhau gwelliant. Mae disgyblion yn dechrau asesu gwaith eu hunain a'u cyfoedion, ond mae'n rhy gynnar i fesur effaith hyn ar ddeilliannau.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer asesu, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio data olrhain cynnydd disgyblion yn briodol i adnabod a darparu ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi gwybodaeth briodol iddynt am gynnydd a chyflawniad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle teimla'r disgyblion yn ddiogel. Mae trefniadau cadarn yn bodoli ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac i addysgu'r disgyblion am sut i fod yn ddiogel. Rhoddir sylw arbennig i anghenion personol, emosiynol ac addysgol y disgyblion, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles.

Mae'r ysgol yn sicrhau profiadau buddiol er mwyn datblygu medrau ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn briodol, er enghraifft drwy sesiynau cyd-addoli. Trwy groesawu ymwelwyr o wledydd tramor i'r ysgol, mae'r staff yn atgyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau a chredoau eraill yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol â nifer o asiantaethau arbenigol, fel yr heddlu, gwasanaethau seicolegwyr addysg a gwasanaethau cymdeithasol, yn ôl yr angen. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les y disgyblion a'u hymwybyddiaeth o faterion penodol, fel diogelwch ar y we.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i fynd i'r afael â gofynion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn nodi targedau clir ac yn amlinellu gweithgareddau penodol ar gyfer sicrhau cynnydd. Mae'r disgyblion yn trafod eu targedau personol gydag athrawon ac mae rhieni'n cael mewnbwn addas i adolygu'r cynnydd. Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth addas i'r disgyblion hyn, gan roi ffocws clir a phenodol iddynt wella eu medrau llythrennedd yn benodol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogleu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae Ysgol Tyle'r Ynn yn gymuned hapus, gynhwysol a gofalgar lle caiff pob disgybl ei barchu a'i gefnogi. Mae'r ysgol yn cynnig cyfle cyfartal i ddisgyblion ar gyfer yr holl feysydd dysgu a gweithgareddau. Mae pwyslais ar ddangos parch a chwrteisi at bawb ac i gyfrannu'n fuddiol i'r ysgol a'r gymuned enangach.

Yn gyffredinol, mae gan yr ysgol gyflenwad o adnoddau priodol ar gyfer cefnogi'r dysgu ac mae'r gwaith o ddatblygu'r ardaloedd dysgu yn yr awyr agored yn parhau. Fodd bynnag, nid yw hwn wedi datblygu'n llawn hyd yma ac, o ganlyniad, nid yw'r ddarpariaeth yn gyson ar draws holl ddosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen. Er bod cyflwr rhannau o lwybrau cerdded a buarth chwarae yr ysgol yn wael mewn mannau, mae'r ysgol wedi sicrhau cyllid i ddechrau ar y gwaith hwn yn fuan iawn.

Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r coridorau yn dathlu gwaith a llwyddiannau'r disgyblion yn briodol. Mae'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae safle'r ysgol yn ddiogel ar gyfer y disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ofal, cymorth, lles a boddhad y disgyblion a'r staff. Mae'r llywodraethwyr, staff a'r rhieni yn rhannu'r weledigaeth honno ac yn cydnabod pwysigrwydd cynnal ysgol lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn hapus i'w mynychu. Mae'r cydweithio agos sy'n bodoli rhwng yr holl staff yn cyfrannu'n llwyddiannus at wireddu'r weledigaeth honno. Fodd bynnag, nid yw rôl strategol yr arweinwyr yn sicrhau bod cydbwysedd priodol yn bodoli rhwng yr elfennau o ofal, cymorth a lles ar yr un llaw a'r ddarpariaeth gwricwlaidd ar y llall.

Mae'r pennaeth yn annog y staff i feithrin a datblygu eu medrau arwain anffurfiol yn llwyddiannus.  Wedi iddynt adnabod yr angen, mae nifer ohonynt yn arwain neu'n cyfrannu'n sylweddol at gynllunio a chyflwyno strategaethau sy'n cyfoethogi'r ddarpariaeth gwricwlaidd a chodi safonau disgyblion mewn meysydd penodol.  Mae enghreifftiau da lle mae staff yn arwain gweithgareddau yn cynnwys datblygu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, cyflwyno Siarter Iaith yr ysgol a chyfoethogi medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion.

Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd sy'n canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu'r ddarpariaeth a thrafod unrhyw gynnydd yn y blaenoriaethau a nodir yng nghynllun gwella'r ysgol.  Mae swydd ddisgrifiadau cyfredol y staff yn adlewyrchu eu cyfrifoldebau a'u rolau yn eglur ac mae'r weithdrefn ar gyfer rheoli perfformiad y staff yn lled effeithiol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft trwy gynllunio gweithgareddau i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion ac i hyrwyddo'r Siarter Iaith.  Fodd bynnag, mae nifer o'r strategaethau i hyrwyddo'r rhain wedi cychwyn yn lled ddiweddar, ac mae'n rhy gynnar i werthuso'u heffaith lawn ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae rôl y llywodraethwyr fel ffrindiau beirniadol yn datblygu'n raddol.  Maent yn cefnogi'r pennaeth a'r staff yn lled effeithiol ac, ar y cyfan, yn adnabod anghenion yr ysgol.  Mae ganddynt ddealltwriaeth gref o'i chryfderau, yn enwedig ym maes lles a gofal, ac maent yn gwybod am nifer o'r meysydd sydd angen eu gwella.  Mae'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn ymweld â'r ysgol yn gyson a threfnir diwrnod agored yn flynyddol ar gyfer y gweddill, sy'n darparu cyfleoedd iddynt ymweld â'r dosbarthiadau a sgwrsio gyda'r disgyblion a'r staff.  Mae hyn yn eu galluogi i ddwyn arweinwyr i gyfrif yn briodol.

**Gwella ansawdd:  Digonol**

Mae arweinwyr yn cywain barn staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn gyson, ac yn aml yn ymateb yn briodol i unrhyw awgrymiadau synhwyrol.  Mae enghreifftiau o sut mae arweinwyr wedi ymateb i awgrymiadau gan rieni yn cynnwys addasu'r dulliau y maent yn cyfathrebu â nhw, ac yn dilyn cais gan y disgyblion hŷn, maent wedi ehangu'r cyflenwad o lyfrau darllen ffeithiol.

Mae amserlen hunanarfarnu'r ysgol yn amlygu gweithgareddau monitro yn drefnus dros y flwyddyn.  Fodd bynnag, nid yw'n nodi cyfleoedd i arfarnu nifer o elfennau allweddol ar waith yr ysgol yn ddigon manwl.  O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr wybodaeth digon trylwyr am effeithiolrwydd y ddarpariaeth na'i effaith ar ddisgyblion mewn meysydd penodol.

At ei gilydd, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddisgrifiadol ac yn seiliedig ar adnabyddiaeth y pennaeth o weithgareddau'r ysgol yn hytrach nag effaith unrhyw weithgareddau neu strategaethau sydd wedi eu cyflwyno.  Mae cyswllt priodol yn bodoli rhwng nifer o'r meysydd a nodir ynddo fel rhai sydd angen eu datblygu a blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn ddogfen ddefnyddiol ac yn cynnwys targedau meintiol addas, ynghyd â chostau a chamau gweithredu priodol. Mae'n nodi'r unigolion sy'n gyfrifol am weithredu'r camau ac am fonitro unrhyw gynnydd. Mae arweinwyr yn monitro'r cynnydd yn erbyn y targedau yn dymhorol ac yn adrodd yn briodol ar hyn i'r llywodraethwyr. Caiff y cynllun gwella ei werthuso ar ddiwedd y flwyddyn academaidd ac mae deilliannau'r weithdrefn hon yn cyfrannu'n addas at y cynllun dilynol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli rhwng yr ysgol â'r rhieni. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfathrebu cyson sy'n bodoli rhyngddynt â'r ysgol, ynghyd â'r modd maent yn cael eu cynnwys yn addysg eu plant er mwyn gallu cefnogi gartref. Enghraifft dda o hyn yw i'r rhieni a'u plant graffu ar y llyfrau gwaith gyda'i gilydd er mwyn i'r rhieni ddeall yr hyn a gyflawnir, ynghyd â'r hyn sydd angen i'r disgyblion ei wneud ymhellach er mwyn gwella safon eu gwaith.

Mae'r gymdeithas rieni weithgar yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau sy'n cynnwys yr ysgol a'r gymuned leol. Maent wedi casglu arian ar gyfer cyfrannu at brynu offer TGCh ynghyd ag offer chwarae ar y buarth. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a safonau'r disgyblion.

Mae trefniadau trosglwyddo buddiol yn bodoli gyda mudiadau cyn-ysgol lleol yn ogystal â'r ysgol uwchradd. Mae'r darpar rieni yn cael gwybodaeth addas am yr ysgol yn ystod y cyfnod trosglwyddo. Mae'r trefniadau buddiol hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n fuan ar ôl cychwyn yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol gydag ysgolion eraill y clwstwr er mwyn datblygu gwahanol agweddau o'r cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithio i addasu gweithgareddau rhifedd er mwyn codi safonau disgyblion hynaf yr ysgol. Mae'r athrawon hefyd yn cydweithio'n agos gyda chlwstwr yr ysgol uwchradd i gymedroli asesiadau athrawon er mwyn sicrhau dilysrwydd yr asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Mae'r berthynas effeithiol rhwng yr ysgol ac asiantaethau arbenigol allanol yn cefnogi'r staff i ddarparu ystod o raglenni gwerthfawr sy'n cefnogi disgyblion yn llwyddiannus. Mae partneriaeth dda rhwng yr ysgol â phrifysgolion a cholegau lleol yn cyfrannu'n effeithiol at adeiladu cynhwysedd o fewn yr ysgol. Mae'r ysgol wedi cefnogi darpar athrawon ar gynllun addysgu graddedig yn y gorffennol, ac mae un bellach yn athrawes gymwysedig yn yr ysgol ac yn arwain mewn meysydd penodol.

Mae'r holl ddisgyblion yn cael profiadau sy'n hyrwyddo'r ymdeimlad o berthyn ynghyd â balchder yn eu hardal leol. Mae hyn yn hyrwyddo'u defnydd naturiol o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth yn llwyddiannus ac yn cefnogi siarter iaith yr ysgol. Mae prosiectau buddiol fel y gystadleuaeth fentergarwch ar gyfer disgyblion hŷn yr ysgol yn hybu'r defnydd o fedrau meddwl, llythrennedd a rhifedd yn briodol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol gyflenwad priodol o athrawon a chynorthwywyr dysgu sy'n meddu ar gymwysterau a phrofiad addas i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae'r cynorthwywyr yn

gaffaeliad i'r ysgol ac yn cynnig cynhaliaeth werthfawr i'r disgyblion yn y mwyafrif o ddosbarthiadau. Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd addas o arbenigedd y staff i sicrhau lles uchel y disgyblion. Gwna'r athrawon ddefnydd addas o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu a rheolir y trefniadau ar gyfer hyn yn briodol.

Mae'r staff yn manteisio ar y cyfleoedd a ddarperir iddynt ddatblygu'n broffesiynol ac maent yn aml yn cydweithio ag athrawon o ysgolion eraill ar elfennau penodol sy'n ymwneud, er enghraifft, â rhifedd a llythrennedd. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion yn y meysydd hyn. Mae cysylltiad addas yn bodoli rhwng blaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol, deilliannau'r weithdrefn rheoli perfformiad a'r cyfleoedd a ddarperir i'r staff ddatblygu'n broffesiynol. Fodd bynnag, er eu bod yn nodi meysydd datblygu priodol, nid yw amcanion rheoli perfformiad y staff bob amser yn ddigon miniog i fod yn gymorth i arweinwyr eu gwerthuso.

Mae'r pennaeth, y llywodraethwyr a swyddog cyllid yr awdurdod lleol yn rheoli cyllideb yr ysgol yn dda. Trwy gynllunio gofalus, mae'r gwarged wedi lleihau dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol ar gyfer defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Mae'r gweithgareddau'n canolbwyntio'n briodol ar godi safonau grwpiau penodol o ddisgyblion ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r unigolion hyn.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6712231 - YGG Tyle'r Ynn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 239 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 20.7 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 29 | 36 | 25 | 22 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 72.4 | 88.9 | 84.0 | 72.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 36 | 25 | 22 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 79.3 | 88.9 | 92.0 | 86.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 37.9 | 50.0 | 32.0 | 22.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 36 | 25 | 22 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 75.9 | 91.7 | 84.0 | 77.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 31.0 | 50.0 | 36.0 | 22.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 36 | 25 | 22 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.1 | 97.2 | 96.0 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 37.9 | 91.7 | 40.0 | 22.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6712231 - YGG Tyle'r Ynn**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 239 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 20.7 |
| Grŵp PYD | 3 (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 21 | 20 | 23 | 27 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 90.5 | 90.0 | 87.0 | 92.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 20 | 23 | 27 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.2 | 90.0 | 91.3 | 92.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | 50.0 | 39.1 | 29.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 20 | 23 | 27 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 85.0 | 87.0 | 92.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 23.8 | 40.0 | 43.5 | 29.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 20 | 23 | 27 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.5 | 90.0 | 91.3 | 92.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 57.1 | 25.0 | 47.8 | 29.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 20 | 23 | 27 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.5 | 90.0 | 95.7 | 92.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | 25.0 | 39.1 | 25.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 100 | 100 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 99 | 88 | 11 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 89% | 11% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 100 | 95 | 5 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 100 | 95 | 5 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 100 | 91 | 9 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 91% | 9% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 100 | 93 | 7 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 99 | 97 | 2 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 100 | 98 | 2 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 100 | 81 | 19 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 81% | 19% | |
| | | 90% | 10% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 100 | 91 | 9 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 91% | 9% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 100 | 66 | 34 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 66% | 34% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 100 | 71 | 29 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 71% | 29% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 110 | 73 | 37 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 66% | 34% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 110 | 88 | 22 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 110 | 92 | 17 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 84% | 15% | 1% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 110 | 77 | 30 | 2 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 70% | 27% | 2% | 0% | | |
| | | 61% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 109 | 42 | 53 | 4 | 0 | 10 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 39% | 49% | 4% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 110 | 71 | 38 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 110 | 72 | 32 | 3 | 0 | 3 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 65% | 29% | 3% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 110 | 51 | 35 | 7 | 1 | 16 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 46% | 32% | 6% | 1% | | |
| | | 49% | 43% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 110 | 71 | 32 | 3 | 0 | 4 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 65% | 29% | 3% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 109 | 63 | 36 | 2 | 1 | 7 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 58% | 33% | 2% | 1% | | |
| | | 59% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 109 | 72 | 36 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 33% | 1% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 109 | 53 | 28 | 5 | 1 | 22 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 49% | 26% | 5% | 1% | | |
| | | 55% | 39% | 5% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 109 | 62<br>57% | 38<br>35% | 8<br>7% | 1<br>1% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 48% | 41% | 9% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 109 | 88<br>81% | 18<br>17% | 3<br>3% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 110 | 53<br>48% | 30<br>27% | 6<br>5% | 1<br>1% | 20 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 110 | 65<br>59% | 36<br>33% | 2<br>2% | 0<br>0% | 7 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 110 | 43<br>39% | 27<br>25% | 1<br>1% | 1<br>1% | 38 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 110 | 62<br>56% | 37<br>34% | 5<br>5% | 1<br>1% | 5 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 109 | 66<br>61% | 38<br>35% | 3<br>3% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Huw Watkins | Arolygydd Tîm |
| Ms Gwen Lloyd Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Mr Robert Richard Thomas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Sian Hart (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.